Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Dadansoddiad rhanbarthol o ganfyddiadau'r arolwg a data rheolaidd Wythnos 8 (25 i 31 Mai 2020)**

Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r wybodaeth a gesglir gan **500 neu fwy o unigolion a ddewisir ar hap** yn darparu sylfaen y canlyniadau a gyflwynir ym mhob **adroddiad wythnosol**.

Nod yr arolwg yw darparu data sydd yn cynrychioli poblogaeth Cymru ac mae'r data'n cael ei addasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oed, rhyw ac amddifadedd.

Yn ystod rhai wythnosau, mae cwestiynau newydd yn cael eu hychwanegu a'u dileu, yn dibynnu ar y materion sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg honno.

Mae sampl o unigolion o arolygon bob wythnos yn cael eu holrhain hefyd gydag ail alwad sy'n archwilio rhai o agweddau gwahanol y pandemig.

Mae'r adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys rhai mesurau rheolaidd a welwyd mewn adroddiadau blaenorol ynghyd â rhai cwestiynau newydd yn defnyddio'r data olrhain.  Casglwyd y data yma rhwng 21 Ebrill a 29 Mai.

Yr wythnos hon, rydym hefyd wedi cyfuno holl ddata'r arolygon wythnosol i archwilio gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng rhanbarthau byrddau iechyd yng Nghymru. Er ein bod wedi cyflwyno canlyniadau a gywirwyd ar gyfer gwahaniaethau mewn oed a rhyw rhwng rhanbarthau, dylid dod i gasgliadau am unrhyw wahaniaeth rhwng byrddau iechyd yn ofalus oherwydd maint y samplau. Rydym wedi darparu rhai mesurau sydd yn arwyddocaol yn ystadegol i lywio'r dehongliad.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



# Prif ganfyddiadau'r arolygon

Mae dros 4,000 o drigolion Cymru wedi cymryd rhan yn yr arolwg hyd yn hyn ac mae tua 2,000 wedi cwblhau arolwg olrhain.

## Mae dadansoddiadau o ddata'r arolwg yn ôl bwrdd iechyd yn dangos…

Bod safbwyntiau a phrofiadau o coronafeirws a'r cyfyngiadau yn debyg ar draws Cymru, heb unrhyw wahaniaeth o ran effaith ar les meddwl ar draws byrddau iechyd.

Mae cyfran y cyfranogwyr sydd yn credu eu bod wedi cael coronafeirws yn amrywio o 8% ym Mhowys i 15% yng Nghwm Taf Morgannwg.

Mae hyder yn y GIG ac agweddau cadarnhaol tuag at Lywodraeth Cymru yn uchel ar draws pob ardal, ac ar eu huchaf yn Hywel Dda.

## Mae dadansoddiadau o ddata'r arolwg olrhain yn dangos bod…

**27%**

o bobl wedi cael apwyntiad neu driniaeth feddygol oedd wedi ei drefnu wedi ei ganslo oherwydd coronafeirws.

**12%**

o bobl heb gael cyngor meddygol fel ymweld â meddyg teulu neu fynd i adran ddamweiniau ac achosion brys lle byddent wedi gwneud hynny fel arfer.

**87%**

o bobl yn credu y bydd perthynas gryfach rhwng pobl mewn cymunedau yn effaith hirdymor gadarnhaol o coronafeirws.

# Prif ganfyddiadau'r wythnos ho

Cafodd 596 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 8 o'r arolwg (25 i 31 Mai). Mae

## 75%

o bobl o'r farn bod y cyfyngiadau sydd ar waith i reoli coronafeirws yn weddol gywir, cynnydd o'i gymharu â'r wythnos ddiwethaf.

## 50%

o bobl o'r farn y dylai siopau ailagor yn y 3 wythnos nesaf, cynnydd o'i gymharu â'r wythnos ddiwethaf.

## 56%

o bobl o'r farn y dylai gweithwyr nad ydynt yn weithwyr hanfodol allu dychwelyd i'r gwaith yn y tair wythnos nesaf, cynnydd o'i gymharu â'r wythnos ddiwethaf.

## 44%

o bobl o'r farn, wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, y dylai pobl orfod gwisgo masg wyneb mewn mannau cyhoeddus, gostyngiad o'i gymharu â'r wythnos ddiwethaf.

## 40%

o bobl wedi gadael eu cartref bob dydd yn yr wythnos ddiwethaf, tra bod 14% heb adael eu cartref o gwbl.


## 52%

o bobl wedi bod yn poeni 'cryn dipyn' am golli anwylyn i coronafeirws, gostyngiad o'i gymharu â'r wythnos ddiwethaf.

Data o arolygon olrhain, wedi ei addasu i ddemograffeg cenedlaethol.

## Yn ystod cyfyngiadau coronafeirws, ydych chi…

| | Ydw |
|---|---|
| Wedi cael apwyntiad neu driniaeth feddygol wedi cael ei chanslo? | 27% |




Dim gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl rhyw neu amddifadedd

| | Ydw |
|---|---|
| Heb gael sylw meddygol fel ymweld â'ch meddyg teulu neu fynd i adran ddamweiniau ac achosion brys pan fyddech wedi gwneud hynny fel arfer? | 12% |




Dim gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl oed neu amddifadedd

# Buddion posibl cyfyngiadau coronafeirws

Data o arolygon olrhain, wedi ei addasu yn unol â demograffeg cenedlaethol.

**Ydych chi'n credu bydd sefyllfa coronafeirws yn cael unrhyw un o'r effeithiau hirdymor cadarnhaol canlynol?**

| | Ydw |
|---|---|
| Perthynas gryfach rhwng pobl mewn cymunedau | 87% |
| Pobl yn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau yn fwy | 88% |
| Pobl yn cael cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith | 64% |
| Llai o deithio yn arwain at lai o lygredd | 64% |

# Data arolwg Wythnos 8 – Ynglŷn â corona

Data o brif arolwg wythnos 8, wedi ei addasu yn unol â demograffeg cenedlaethol.

**Ydych chi'n credu bod gennych neu eich bod wedi cael coronafeirws?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 12% |
| Ddim yn gwybod | 7% |

**Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws?**

Nid yw'n cynnwys y rheiny a atebodd 'ydw' i fod wedi cael coronafeirws

| | |
|---|---|
| Ddim o gwbl | 18% |
| Ychydig | 30% |
| Cymedrol | 31% |
| Yn fawr iawn | 21% |


**Oes rhywun agos atoch chi fel aelod o'r teulu neu ffrind wedi bod yn ddifrifol wael* gyda coronafeirws?**

| | |
|---|---|
| Oes | 10% |


*derbyn i'r ysbyty neu wedi marw

# Pa mor dda ydym yn ymdrin â coronafeir

Ydych chi'n credu bod y cyfyngiadau sydd ar waith i reoli coronfeirws...




Byddai'n well gen i barhau gyda'r cyfyngiadau symud hyd nes nad oes siawns o ddal coronafeirws




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n credu bod **llywodraeth Cymru'n** ymateb i'r problemau a achosir gan coronafeirws yn dda | 19% | 53% | 11% | 13% | 4% |
| Rwy'n hyderus y byddai'r **GIG** yn gallu gofalu'n ddigonol amdanaf pe byddwn yn mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 36% | 50% | 6% | 7% | 1% |
| Rwy'n ymddiried yn yr **heddlu** i ddefnuddio eu grym i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 22% | 51% | 8% | 14% | 4% |

# Camau nesaf yn yr adferia

## Pa rai o'r canlynol sy'n dderbyniol i chi?

| | Ydy | Nac ydy | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Defnyddio ap tracio'r llywodraeth sy'n eich hysbysu os ydych wedi bod yn agos at rywun sydd â coronafeirws | 73% | 15% | 12% |
| Dirwyo pobl sydd yn mynd yn erbyn mesurau cadw pellter cymdeithasol yn fwriadol | 87% | 8% | 5% |
| Lefelau heintio yn cynyddu ychydig o ganlyniad i godi rhai o'r cyfyngiadau | 54% | 33% | 12% |

## Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau ydych chi'n credu y dylid eu sefydlu i ddiogelu pobl?

| | Ydw | Nac ydw | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylai pobl orfod cadw pellter cymdeithasol pan fyddant allan | 94% | 3% | 3% |
| Dylai pobl sydd yn gadael eu cartrefi gael eu profi'n rheolaidd i weld a oes ganddynt y feirws | 63% | 24% | 13% |

## Pryd ydych chi'n credu y dylai'r newidiadau canlynol ddigwydd*?

| | Yn y 3 wythnos nesaf | | | Mewn mwy na 3 wythnos | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pawb | Gwrywaidd | Benywaidd | Pawb | Gwrywaidd | Benywaidd |
| Dylai ysgolion ailagor | 19% | 26% | 13% | 81% | 74% | 87% |
| Dylai siopau ailagor | 50% | 56% | 44% | 50% | 44% | 56% |
| Dylai bwytai, tafarnau a bariau ailagor | 15% | 19% | 11% | 85% | 81% | 89% |
| Dylai gweithwyr nad ydynt yn hanfodol allu dychwelyd i'r gwaith | 56% | 61% | 52% | 44% | 39% | 48% |
| Dylai pobl allu defnyddio mannau cyhoeddus fel parciau a thraethau yn rhydd os ydynt yn cadw pelleter cymdeithasol | 67% | 72% | 62% | 33% | 28% | 38% |
| Dylai digwyddiadau mawr fel chwaraeon a chyngherddau allu cael eu cynnal | 5% | 7% | 4% | 95% | 93% | 96% |
| Dylid dod â chadw pellter cymdeithasol i ben | 10% | 11% | 9% | 90% | 89% | 91% |

*Casglwyd y data 25-31 Mai

# Masgiau wyneb

**Ar hyn o bryd, pan fyddwch yn mynd allan, ydych chi'n gwisgo masg wyneb…**

| | |
|---|---|
| Y rhan fwyaf o'r amser | 14% |
| Weithiau | 17% |
| Byth | 57% |
| Ddim yn berthnasol* | 12% |


* ddim yn mynd allan

**Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau ydych chi'n credu y dylid eu sefydlu i ddiogelu pobl?**

Dylai pobl orfod gwisgo masgiau wyneb mewn mannau cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Ydw | 44% |
| Nac ydw | 39% |
| Ansicr | 17% |


# Ysgolion




Er mwyn ei wneud yn ddiogel i ysgolion ailagor, pa rai o'r mesurau hyn y byddech yn eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Plant yn gorfod gwisgo masg wyneb yn yr ysgol | 30% | 58% | 12% |
| Cymryd tymheredd y plant pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol | 84% | 10% | 6% |
| Plant yn mynd i'r ysgol ar lai o ddiwrnodau i gadw niferoedd y disgyblion yn isel | 78% | 12% | 10% |
| Dychwelyd i'r ysgol ar gyfer ysgolion cynradd yn unig, am yr ychydig wythnosau cyntaf o leiaf | 42% | 46% | 12% |

# Gweithleoedd




Er mwyn ei wneud yn ddiogel i bobl ddychwelyd i'r gwaith, pa rai o'r mesurau hyn y byddech chi'n eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Pobl yn gorfod gwisgo masgiau wyneb wrth weithio o dan do mewn gofod a rennir | 72% | 17% | 12% |
| Mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ofynnol ym mhob gweithle | 92% | 4% | 4% |
| Pobl yn gorfod cymryd eu tymheredd yn y gwaith | 86% | 12% | 3% |
| Profion ar gyfer y feirws ar gael yn hawdd i unrhyw un sydd yn teimlo'n anhwylus yn y gwaith | 97% | 2% | 1% |
| Newid oriau gwaith pobl i leihau faint o bobl sydd yn gweithio ar unrhyw adeg(e.e. gweithio mewn sifftiau) | 87% | 8% | 5% |

# Trafnidiaeth gyhoeddus a siopau

**Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau yn eich barn chi ddylai gael eu sefydlu i ddiogelu pobl?**

## Trafnidiaeth gyhoeddus


| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylai pobl ar drafnidiaeth gyhoeddus orfod gwisgo masgiau wyneb | 88% | 8% | 4% |
| Dylai darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus sicrhau bod gofod diogel rhwng teithwyr | 91% | 5% | 5% |
| Ni ddylai pobl rannu ceir gyda phobl nad ydynt yn byw gyda nhw | 70% | 20% | 10% |

## Agor siopau

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylai pobl mewn siopau wisgo mygydau wyneb neu feisorau | 79% | 13% | 8% |
| Dylai fod yn ofynnol ar siopau sefydlu mesurau cadw pellter cymdeithasol | 97% | 1% | 1% |

# Sut ydym yn ymddwyn?

## Yn y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref?




Ydych chi'n hunanynysu ar hyn o bryd am fod gennych chi neu rywun arall yn eich cartref symptomau neu am eu bod mewn grŵp risg uchel?

| | |
|---|---|
| Ydw | 30% |

# Beth ydym yn poeni yn ei gylc

## Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau y mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

| | Ddim o gwbl | Ychydig | Cryn dipyn |
|---|---|---|---|
| Colli anwylyn i'r feirws | 20% | 28% | 52% |
| Lles eich plant*~ | 19% | 33% | 48% |
| Addysg eich plant*~ | 19% | 32% | 48% |
| Cyflwr iechyd nad yw'n gysylltiedig â coronafeirws | 65% | 23% | 12% |
| Colli eich swydd neu methu dod o hyd i un#~ | 67% | 18% | 15% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw eich swydd yn ddiogel#~ | 54% | 30% | 15% |
| Eich cyllid | 64% | 20% | 16% |

## O ganlyniad i coronafeirws, ydych chi neu rywun yn eich cartref…

| | Do |
|---|---|
| Wedi cael eich atal dros dro o'ch gwaith ar dâl is neu heb dâl (e.e. ar ffyrlo) | 27% |
| Wedi cael gostyngiad sylweddol mewn incwm trwy gael llai o waith neu lai o oriau | 12% |
| Wedi profi unrhyw effaith ariannol arall ar y cartref oherwydd coronafeirws | 7% |

*Cyfyngedig i'r rheiny â phlant yn y cartref; ~Data heb ei bwysoli; #Nid yw'n cynnwys y rheiny sydd yn ymateb 'ddim yn gymwys'

# Sut ydych chi’n teimlo?

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo’n iach** | **Pa mor iach ydych chi’n teimlo heddiw?**<br>0 = Afiach iawn; 10 = Iach iawn | 7% | 25% | 68% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo’n hapus** | **Pa mor hapus ydych chi’n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Yn gwbl hapus | 5% | 28% | 67% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo’n bryderus** | **Pa mor bryderus ydych chi’n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl; 10 = Yn gwbl bryderus | 47% | 28% | 25% |

| | | 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer corff** | **Sawl diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf y gwnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i’ch gwneud chi allan o wynt)?** | 23% | 30% | 47% |

# Sut ydym yn teimlo?

## Yn yr wythnos ddiwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimo…

| | Yn unig | Wedi eich ynysu |
|---|---|---|
| Byth | 62% | 40% |
| Weithiau | 25% | 38% |
| Yn aml | 9% | 15% |
| Bob amser | 4% | 7% |

---

## Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau y mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

Eich iechyd a'ch lles meddwl

| | |
|---|---|
| Ddim o gwbl | 51% |
| Ychydig | 33% |
| Cryn dipyn | 16% |

Wythnos 8 (25 i 31 Mai 2020)


# Dadansoddiad yn ôl bwrdd

| | |
|---|---|
| **Yr arolwg** | Arolwg cenedlaethol dros y ffôn a gynhaliwyd gydag oedolion (>18 oed) sydd yn byw yng Nghymru ar hyn o bryd. |
| | Dechreuwyd casglu data ar ddechrau **Ebrill 2020** ac mae'n parhau. |
| | Hyd yn hyn, mae dros 4,000 o bobl wedi dweud wrthym am y ffordd y mae'r feirws a'r cyfyngiadau symud yn effeithio arnynt. |
| **Ein dadansoddiadau** | Mae'r dadansoddiadau hyn yn ystyried y ffordd y gallai coronafeirws fod yn wahanol i bobl sydd yn byw mewn rhannau gwahanol o Gymru. Yma rydym wedi defnyddio ardaloedd bwrdd iechyd lleol (BILl) i ystyried unrhyw amrywiadau rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, hyd yn hyn, bod yr arolwg ond wedi samplu ychydig dros 200 o bobl o Bowys. Er bod hyn yn gymesur â dosbarthiad cyffredinol y boblogaeth yng Nghymru (gweler isod), mae'n cynyddu'r tebygolrwydd na fydd y gwahaniaethau rhwng yr ardal hon ac ardaloedd eraill yn arwyddocaol yn ystadegol. Yn ogystal, gall fod gwahaniaethau eraill rhwng y BILlau nad ydynt yn cael eu rheoli yma a gallai effeithio ar y canfyddiadau (e.e. nifer uwch yr achosion o gyflyrau iechyd cronig yn Hywel Dda, neu gyfran uwch o bobl sydd yn byw ar eu pen eu hunain ym Mae Abertawe). |
| | Mae dosbarthiad ymatebwyr yr arolwg o bob BILl yn gyfwerth â'r dadansoddiad o boblogaeth cyffredinol oedolion Cymru, yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 (gweler https://statswales.gov.wales/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Health-Boards/populationestimates-by-lhb-age). |
| | Defnyddiwyd swyddogaeth **model unionlin cyffredinol** i archwilio'r berthynas annibynnol rhwng canlyniadau o ddiddordeb a BILl, tra'n addasu ar gyfer oed a rhyw. |
| | Cafodd y dadansoddiadau hefyd eu cywiro ar gyfer amser (h.y. wythnos yr arolwg). Fodd bynnag, nid tueddiadau dros amser yw ffocws yr adroddiad hwn a chânt eu hadrodd mewn man arall. |
| **Canfyddiadau** | Cyflwynir gwahaniaethau allweddol ar gyfer bob un o'r BILlau. Oni amlygir hynny, mae'r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol ar p<.05. Daw'r canfyddiadau o ddata a gasglwyd o wythnosau 2 i 8 o'r arolwg, oni nodir fel arall yn y troednodiadau. |

# Dadansoddiad yn ôl bwrdd

Maint sampl arolwg a roddir ar gyfer pob bwrdd iechyd a chyfran y sampl cyffredinol (%) mewn cromfachau crwn

*Cyfran y boblogaeth sy'n oedolion yng Nghymru yn ôl bwrdd iechyd (%) mewn cromfachau sgwâr*




Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB)

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (PTHB)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDUHB)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB)


Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)


Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (CVUHB)

# Dadansoddiad yn ôl bwrdd


## Canran yr ymatebwyr sydd yn credu bod ganddynt neu eu bod wedi cael coronafeirws




Yn bryderus iawn am gael coronafeirws~* (%):




Yn bryderus iawn am golli anwylyn i’r feirws (%):





Canrannau wedi eu haddasu yn ôl oed, rhyw ac wythnos.


~Ymysg y rheiny sydd yn credu nad ydynt eisoes wedi ei gael. *Nid yw’r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol

# Dadansoddiad yn ôl bwrdd


## Canran yr ymatebwyr sydd yn poeni cryn dipyn am eu **hiechyd meddwl eu hunain***




Yn teimlo'n bryderus iawn* (%):




Yn teimlo wedi eu hynysu* (%):





Canran wedi ei addasu yn ôl oed, rhyw ac wythnos.

*Nid yw'r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Dadansoddiad yn ôl bwrdd


## Canran yr ymatebwyr sydd yn hyderus **y gallai'r GIG ofalu'n ddigonol amdanynt** pe byddent yn mynd yn sâl gyda coronafeirws




Yn credu bod Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r problemau a achosir gan coronafeirws yn dda# (%):




Yn ymddiried yn yr heddlu i ddefnyddio eu grymoedd newydd i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol (%):





Canrannau wedi eu haddasu yn ôl oed, rhyw ac wythnos.


#Data o wythnosau 6-8 o'r arolwg yn unig.

# Dadansoddiad yn ôl bwrdd


## Canran yr ymatebwyr sydd o’r farn bod y **cyfyngiadau presennol** i reoli coronafeirws ‘yn weddol gywir’*




Byddai’n well ganddynt barhau gyda’r cyfyngiadau symud hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal y feirws#* (%):




Byddai’n well ganddynt pe byddai ysgolion yn dal ar gau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal y feirws#* (%):





Canrannau wedi eu haddasu yn ôl oed, rhyw ac wythnos.


*Nid yw’r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol; #Data o wythnosau 6-8 o’r arolwg yn unig.

# Dadansoddiad yn ôl bwrdd


## Canran yr ymatebwyr sydd **yn gwisgo masg wyneb** ‘y rhan fwyaf o’r amser’ pan fyddant yn mynd allan#*




Meddwl y dylid gwneud i bobl gadw pellter cymdeithasol pan fyddant allan#*(%):




Meddwl bod defnyddio ap tracio’r llywodraeth sy’n eich hysbysu os ydych wedi bod yn agos at rywun â coronafeirws yn dderbyniol#*(%):




Canrannau wedi eu haddasu yn ôl oed, rhyw ac wythnos.

*Nid yw’r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol; #Data o wythnosau arolwg 6-8 yn unig.

## Enquiries

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Dadansoddiadau Rhanbarthol**

Katie Hardcastle

**Datblygiad yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Cymorth dadansoddol**

Dr Freya Glendinning

**Email**
generalenquiries@wales.nhs.uk

**Tel**
02920 227744

**Web**
phw.nhs.wales

**Policy and International Health, WHO Collaborating Centre on Investment for Health & Well-being**

Floor 5, Public Health Wales, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BZ

## How are you doing?

For general information on how to look after yourself, your friends and family during the coronavirus restrictions visit: **phw.nhs.wales/howareyoudoing**

